Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llamu Ymlaen – Cyngor Sir Fynwy

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3105A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Fynwy fel rhan o waith a berfformir/a berfformiwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os daw cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a roddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried ffyrdd o weithio yn y dyfodol a'r effaith bosibl ar ei asedau a'i weithlu, ac mae angen iddo nawr gyfleu ei weledigaeth a'i gynllun tymor hirach yn ei strategaethau pobl a rheoli asedau newydd.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Asedau 8

Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut y gallai ffyrdd o weithio yn y dyfodol effeithio ar ei anghenion asedau ac mae'n cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau ei gymhwysiad o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i rhoi wrth wraidd ei strategaeth rheoli asedau newydd 8

Mae gan y Cyngor bolisïau a strwythurau priodol ar waith i reoli ei asedau ond mae capasiti'n broblem, a bu cynnydd cyfyngedig i ddatblygu dull strategol rhanbarthol ar gyfer asedau 11

Mae trefniadau adrodd perfformiad rheoli asedau wedi'u tanddatblygu ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor yn disgwyl i strwythurau pwyllgorau newydd ddarparu mwy o gyfleoedd i graffu 12

Gweithlu 13

Mae'r Cyngor eisoes yn gweithredu model gweithio ystwyth ac wedi datblygu sylfaen dystiolaeth gref i lywio ei Strategaeth Pobl newydd 13

Mae'r Cyngor yn adolygu ei strwythur i reoli ei weithlu ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu ei drefniadau cynllunio gweithlu ymhellach a helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau 14

Mae data a thueddiadau'r gweithlu yn cael eu hadolygu'n fewnol ac mae uwch swyddogion yn hyddysg ynglŷn â materion yn ymwneud â'r gweithlu, ond mae'r pandemig wedi effeithio ar graffu ar y Strategaeth Pobl gan aelodau etholedig 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.

2 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu.

a. ar gyfer asedau, roedd ein prif bwyslais ar lety swyddfa ac adeiladau y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau ohonynt i'w drigolion; ac

b. ar gyfer y gweithlu, rydym wedi canolbwyntio ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion hirsefydlog yn ymwneud â'r gweithlu.

Edrychwyd ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio’n strategol ei ddefnydd o’i asedau a'i weithlu, sut mae'n monitro eu defnydd a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

3 Pan ddechreuon ar ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fe wnaethom gydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad y byddem yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn ffurfio’r hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'n tynnu at saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bellach ac rydym yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl erbyn hyn i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac yn wirioneddol ffurfio'r hyn maen nhw'n ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- i gael sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal darpariaeth gwasanaethau;
- i egluro'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal ag ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach;
- i ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach drwy gipio a rhannu enghreifftiau ymarfer nodedig a dysgu a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y Cyngor yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau adeiladau a'i weithlu. Dangosir gwybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangos 1**.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigurau allweddol yn ymwneud ag asedau adeiladau a gweithlu**

Mae'r tabl isod yn dangos ffeithiau a ffigurau allweddol sy'n ymwneud ag asedau adeiladau a gweithlu y Cyngor yn 2020-21[1].

| | |
|---|---|
| Nifer adeiladau'r Cyngor a berchnogir yn 2020-21[2] | 186 |
| Gwerth yr eiddo ar 31 Mawrth 2021[3] | £224 miliwn |
| Nifer y staff[4] | 3360 (2672 FTE) |
| Gwariant ar y gweithlu[5] | £132 miliwn |
| Canran y staff gwrywaidd/benywaidd[6] | 27% / 73% |
| Canran y staff rhan-amser/llawn-amser[6] | 47% / 53% |
| Canran y staff dros 50 oed[6] | 43% |
| Canran y staff a adawodd y Cyngor[6] | 14% |

[1] Mae ffigurau staff yn seiliedig ar nifer y bobl nid cyfwerth ag amser llawn

[2] Ffynhonnell: Darparwyd gan y Cyngor

[3] Ffynhonnell: Darparwyd gan y Cyngor

[4] Ffynhonnell: InfoBaseCymru

[5] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21 – treuliau budd-daliadau gweithwyr

[6] Ffynhonnell: InfoBaseCymru

6 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y galw am adeiladau a'r ffordd mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar rai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn elwa ar yr elfennau cadarnhaol a lliniaru risgiau'r elfennau negyddol wrth gynllunio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.

7 Gwnaethom yr adolygiad rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mai 2022.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

8 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid? Wrth wneud y gwaith hwn rydym wedi nodi rhywfaint o effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion gweithredol a llywodraethu a waethygwyd gan y pandemig.

9 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor wrthi'n ystyried ffyrdd o weithio yn y dyfodol a'r effaith bosibl ar ei asedau a'i weithlu, ac erbyn hyn mae angen iddo gyfleu ei weledigaeth a'i gynllun tymor hirach yn ei strategaethau pobl a rheoli asedau newydd.

10 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut y gallai ffyrdd o weithio yn y dyfodol effeithio ar ei anghenion asedau ac mae'n cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau ei gymhwysiad o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i roi wrth wraidd ei strategaeth rheoli asedau newydd;
- mae gan y Cyngor bolisïau a strwythurau priodol ar waith i reoli ei asedau, ond mae capasiti'n broblem a bu cynnydd cyfyngedig i ddatblygu dull strategol rhanbarthol o ymdrin ag asedau;
- mae trefniadau adrodd perfformiad rheoli asedau wedi'u tanddatblygu ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor yn disgwyl i strwythurau pwyllgor newydd ddarparu mwy o gyfleoedd i graffu;
- mae'r Cyngor eisoes yn gweithredu model gweithio ystwyth ac wedi datblygu sylfaen dystiolaeth gref i lywio ei Strategaeth Pobl newydd;
- mae'r Cyngor yn adolygu ei strwythur i reoli'r gweithlu ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu ei drefniadau cynllunio'r gweithlu ymhellach a helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau; ac
- mae data a thueddiadau'r gweithlu yn cael eu hadolygu'n fewnol ac mae uwch swyddogion yn hyddysg ynglŷn â materion yn ymwneud â'r gweithlu, ond mae'r pandemig wedi effeithio ar graffu ar y Strategaeth Pobl gan aelodau etholedig.

## Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Cynllunio**<br>A1 Wrth ddatblygu ei strategaethau rheoli asedau a gweithlu newydd, dylai'r Cyngor adeiladu ar ei brofiad o'r pandemig a rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau, a sicrhau'n benodol ei fod yn:<br>• ystyried tueddiadau mwy hirdymor a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau a'r defnydd effeithlon o asedau a gweithlu.<br>• nodi ei ganlyniadau arfaethedig yn y tymor byr, canolig a hir.<br>• ystyried sut mae'r strategaethau yn effeithio ar amcanion sefydliadau eraill yn y sir ac yn rhanbarthol.<br>• ystyried barn ac anghenion y staff, defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid. Wrth wneud hynny dylai'r Cyngor geisio deall sut, ble a phryd y mae defnyddwyr yn dymuno cael gafael ar wasanaethau ar ôl COVID-19 a sut y gallai hynny ddylanwadu ar anghenion asedau a chynllunio gweithlu yn y dyfodol.<br>• cydweithredu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus ledled Gwent i werthuso manteision posibl datblygu dull strategol hirdymor o ran un ystad gyhoeddus. |
| **Gwneud**<br>A2 Wrth i'r Cyngor ddechrau gweithredu ei strategaethau newydd, dylai geisio adeiladu ar enghreifftiau presennol o weithio gyda phartneriaid drwy ddatblygu dull mwy systematig o ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithio. |
| **Adolygu**<br>A3 I gefnogi craffu rheolaidd a gwneud penderfyniadau gan aelodau etholedig a helpu i roi sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian, dylai'r Cyngor sicrhau bod y canlyniadau a nodir yn ei strategaethau gweithlu a rheoli asedau yn cael eu hategu gan fesurau perfformiad SMART, a bod meincnodi yn cael ei ddefnyddio lle bo hynny'n briodol. |

# Adroddiad manwl

## Asedau

### Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut y gallai ffyrdd o weithio yn y dyfodol effeithio ar ei anghenion asedau ac mae'n cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau ei gymhwysiad o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i rhoi wrth wraidd ei strategaeth rheoli asedau newydd

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuwyd y canlynol:

- roedd y newid i weithio gartref a ddaeth yn sgil y pandemig yn gymharol ddidrafferth i'r Cyngor. Cyn COVID-19, roedd llawer o staff eisoes yn gweithio'n ystwyth ac roedd adeiladau swyddfa'r Cyngor yn gweithio ar gymhareb o un ddesg i bob dau aelod o staff. O ganlyniad, roedd gan y Cyngor seilwaith TG ar waith eisoes i gefnogi staff i weithio o bell a diwylliant lle nad oedd disgwyl i staff fod mewn swyddfeydd bob amser.
- cyn COVID, roedd gan y Cyngor ddau brif adeilad swyddfa – Neuadd y Sir ym Mrynbuga a Tŷ Arloesi ym Magwyr, ar ôl rhesymoli ei ystad yn y gorffennol. Roedd yn y broses o symud staff o Tŷ Arloesi i Neuadd y Sir pan darodd y pandemig. Ers hynny mae'r cam hwn wedi'i gwblhau ac mae'r Cyngor wedi trosglwyddo Tŷ Arloesi o'i bortffolio gweithredol i'w bortffolio buddsoddi i ddefnyddio'r adeilad i gynhyrchu incwm. I ddechrau, bydd hyn drwy roi’r lle swyddfa ar osod ac mae'r Cyngor wedi gofyn am gyngor allanol ar y ffordd orau o ffurfweddu'r adeilad i ateb y galw presennol yn y farchnad.
- mae'r Cyngor wrthi'n ystyried pa olwg fydd ar y gweithle yn y dyfodol ac yn dilyn datblygiadau yn y sector cyhoeddus a phreifat. Bydd gweithio ystwyth yn parhau, gan roi’r hyblygrwydd i staff nad ydynt yn wynebu cwsmeriaid i weithio ble bynnag sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a rôl eu swydd, ond nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch ei asedau adeiladau nes bod mwy o sicrwydd ynghylch ei anghenion adeiladau yn y dyfodol. Dywedodd wrthym, pan fydd yn teimlo bod ganddo’r wybodaeth addas, y bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch defnydd o asedau, a rhesymoli yn y dyfodol, yn cael eu gwneud yng nghyd-destun ei flaenoriaethau corfforaethol, cynlluniau creu lleoedd ac adfywio canol trefi.
- yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn addasu ei swyddfeydd i weddu'n well i ffyrdd cyfredol o weithio. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn ad-drefnu Neuadd y Sir i ddarparu mwy o fannau cydweithredol mewn ymateb i adborth staff rheolaidd a data o'r system cadw desg a weithredwyd yn ystod y pandemig. Mae hefyd yn buddsoddi mewn offer clyweledol a digidol newydd i wella cyfarfodydd hybrid i staff, ar ôl gosod offer newydd yn siambr y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hybrid eisoes. Llwyddodd y Cyngor i addasu'n gyflym i gyfarfodydd hybrid ac mae wedi rhannu ei brofiadau ag awdurdodau lleol cyfagos er mwyn llywio eu gwaith yn y maes hwn.

- mae datgarboneiddio yn ysgogydd allweddol ar gyfer newid ac mae strategaeth a chynllun diweddaraf rheoli asedau'r Cyngor yn cynnwys sawl cam gweithredu ar gyfer gwyrddio ei ystad, gan gynnwys gwaith ail-osod, datblygu gorsaf danwydd hydrogen a gosodiadau gwefru cerbydau trydan, a chreu mwy o ffermydd solar. Gwelsom hefyd dystiolaeth o feddwl integredig mewn cysylltiad ag asedau a datgarboneiddio: nododd adolygiad o'r Uned Cludiant Teithwyr yr angen am seilwaith depo addas i'r diben. O ganlyniad, mae swyddogion yn ystyried lleoliadau addas ar gyfer depo newydd ac yn archwilio sut y gall seilwaith y depo newydd helpu i gyfrannu at gynlluniau sero net y Cyngor drwy gysylltu'r depos â ffermydd solar presennol a rhai'r dyfodol fel y gall y fflyd gael eu pweru gan ynni adnewyddadwy.
- mae gan y Cyngor hefyd uchelgais i ddefnyddio ei dir a'i adeiladau segur i helpu i ymdrin â heriau lleol fel tai fforddiadwy a llety i bobl ddigartref. Mae swyddogion yn ystyried opsiynau ond mae cyfyngiadau cynllunio ar ddatblygiadau newydd oherwydd lefelau uchel o ffosffad yn afonydd y sir yn her sylweddol[7]. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod datrysiad.
- mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ei asedau wedi'i nodi'n glir yn ei Strategaeth Rheoli Asedau 2018-22, sy'n cyd-fynd â chynlluniau a strategaethau allweddol eraill, megis y Cynllun Corfforaethol a strategaethau digidol a phobl. Fodd bynnag, mae amseriad ein hadolygiad, yn y flwyddyn y mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn dod i ben, yn golygu nad yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ei asedau yn cael ei mynegi ar hyn o bryd mewn strategaeth hirdymor, sy'n edrych i'r dyfodol. Er hyn, mae themâu allweddol y strategaeth bresennol yn dal i fod yn ddilys yn y cyd-destun presennol – rhywbeth yr ystyriodd y Cyngor wrth ddatblygu ei gynllun gweithredu rheoli asedau ar gyfer 2021-22.
- bwriedir adolygu'r cynlluniau gweithredu rheoli asedau hyn yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol, ond fe wnaeth y pandemig amharu ar y dyhead hwn. Roedd cynllun blynyddol cyfredol ar waith ar adeg ein gwaith maes yn gynnar yn 2022, fodd bynnag, ac mae gwaith i adolygu'r strategaeth rheoli asedau wedi'i drefnu ar gyfer yr hydref. Erbyn hyn bydd y Cynllun Corfforaethol newydd yn barod, gan alluogi'r Cyngor i gysoni'r ddwy ddogfen.
- dywedodd swyddogion wrthym y bydd y strategaeth newydd yn edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf ac yn debygol o fod â chysylltiad agos ag agenda creu lleoedd y Cyngor a chefnogi cynlluniau adfywio canol trefi a lleihau carbon. Ymysg yr heriau allweddol y bydd y strategaeth yn eu cydnabod mae llifogydd a'r mater ffosffadau y cyfeirir ato uchod. Her allweddol arall fydd cyllid i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer sero-net a

[7] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio isicrhau nad yw ansawdd dŵr afonydd Wysg a Gwy yn dirywio ymhellach. Mae hyn yn golygu mai dim ond os byddant yn arwain at niwtraliaeth ffosffad neu wellhad y bydd cynigion datblygu'n cael eu derbyn.

diffinio rôl y Cyngor wrth ddylanwadu ar yr agenda datgarboneiddio yn y gymuned ehangach. Nid yw cynlluniau i ymgysylltu ar y strategaeth newydd wedi'u datblygu'n llawn eto, ond nod y Cyngor yw ymgynghori â rhanddeiliaid ar fersiwn ddrafft o'r strategaeth newydd a defnyddio adborth i lywio'r fersiwn derfynol.

- wrth i'r Cyngor ddechrau mynegi ei weledigaeth ar gyfer asedau yn y dyfodol, drwy ei Strategaeth Rheoli Asedau sydd ar ddod a'i waith i ddeall anghenion asedau yn y dyfodol, dylai osod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau. Ymysg y ffyrdd y gallai ystyried gwneud hyn mae:
  - sicrhau bod gweledigaeth y strategaeth yn ddigon hirdymor. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried y tymor hir. Er bod y strategaeth newydd yn debygol o gwmpasu cyfnod o bum mlynedd, gan ei gysoni â'r Cynllun Corfforaethol a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, dylai'r Cyngor hefyd ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a rhai tymor hwy er mwyn ei helpu i gynllunio a nodi ble yr hoffai fod dros y tymor hwy.
  - ystyried sut y gall gasglu barn yn ystyrlon a deall anghenion staff, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill mewn cysylltiad ag asedau a defnyddio hynny i lywio ei strategaeth. Gan adeiladu ar y gwaith y mae wedi'i wneud i ymgysylltu â staff a deall eu profiadau o weithio yn ystod y pandemig, dylai'r Cyngor hefyd geisio deall sut, ble a phryd y mae defnyddwyr yn dymuno cael gafael ar wasanaethau a sut mae hynny wedi newid ers y pandemig.
  - parhau i integreiddio polisïau a chynlluniau allweddol y Cyngor fel eu bod yn cefnogi canlyniadau blaenoriaeth.
  - cydweithredu â phartneriaid sector cyhoeddus ledled Gwent i werthuso'r manteision posibl datblygu dull hirdymor strategol o gyflawni un ystad gyhoeddus. Pan fo'n bosibl, dylai'r Cyngor hefyd ystyried sut mae ei bolisïau a'i gynlluniau yn effeithio ar amcanion sefydliadau eraill yn y sir ac yn rhanbarthol, neu sut y gellid eu hystyried ar y cyd â nhw.
- dylai'r Cyngor hefyd ymgorffori gwersi perthnasol o'r pandemig i’r strategaeth – gwersi ei hun a rhai sefydliadau a datblygiadau eraill y mae wedi bod yn eu dilyn.

## Mae gan y Cyngor bolisïau a strwythurau priodol ar waith i reoli ei asedau ond mae capasiti'n broblem, a bu cynnydd cyfyngedig i ddatblygu dull strategol rhanbarthol ar gyfer asedau

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuwyd y canlynol:

- yn 2018, gweithredodd y Cyngor fodel landlord corfforaethol, gan ganoli gwaith rheoli a datblygu asedau. Mae'r trefniant hwn yn rhoi dealltwriaeth well a mwy integredig o bortffolio asedau cyffredinol y Cyngor, gan helpu i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.
- mae Gweithgor Rheoli Cyfalaf ac Asedau yn ystyried dull strategol y Cyngor o ran asedau ac yn gwneud argymhellion i'r UDA ar fuddsoddiad cyfalaf. Mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r Cyngor yn aelodau o'r grŵp, sy'n cael ei gadeirio gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol. Ffurfiwyd y grŵp drwy uno gweithgorau a oedd ar wahân yn flaenorol ar gyfer cyfalaf a llety, gan ddarparu dull mwy integredig o reoli asedau a buddsoddi.
- gall y Cyngor ddangos sawl enghraifft o weithio ar y cyd â phartneriaid gan gynnwys trefniadau cydweithredol gyda Heddlu Gwent ar brosiectau ystadau a llety a rennir â'r bwrdd iechyd. Yn ystod y pandemig bu'r Cyngor hefyd yn gweithio gydag iechyd i sefydlu canolfannau brechu a phrofi. Mae'r Cyngor hefyd yn gysylltiedig ag Ystadau Cymru a lle bo angen mae'n gweithio gydag ymgynghorwyr allanol, er enghraifft mewn cysylltiad ag asedau buddsoddi.
- ond mae'r pandemig hefyd wedi effeithio'n negyddol ar ddulliau cydweithredol o ran asedau. Yn 2020, cytunodd sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngwent i gydweithio i nodi dulliau strategol ar gyfer Un Ystad Gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi'i gyfyngu oherwydd galwadau gweithredol i ymateb i'r pandemig. Wrth i'r Cyngor a'i bartneriaid rhanbarthol ddatblygu eu strategaethau rheoli asedau newydd, mae cyfle bellach i ysgogi dull cydweithredol o ran asedau, fel ymrwymwyd iddo yn 2020.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i asedau. Mae arolygon cyflwr adeiladau yn cael eu cwblhau ar sail pum mlynedd dreigl ac yn cael eu defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac i nodi a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw. Mae arfarniadau opsiynau yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch asedau dros ben ac mae gweithdrefnau clir ar gyfer gwarediadau a throsglwyddiadau asedau cymunedol mewn dogfennau polisi pwrpasol.
- nodir buddsoddiad blynyddol yn rhaglen gyfalaf y Cyngor ac mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyfalaf yn cynnwys gwariant cyfalaf wedi'i gynllunio dros gyfnod o bedair blynedd. Mae cofrestr risg strategol y Cyngor yn nodi'r risg bosibl 'na fydd yr awdurdod yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau gwleidyddol na chynnal seilwaith allweddol ac ateb pwysau eraill a nodwyd oherwydd diffyg cyllid cyfalaf'. Mae'r gofrestr yn cynnwys sawl cam lliniaru, ac mae materion cynnal a chadw ac ôl-groniad yn cael eu blaenoriaethu i

wneud y defnydd gorau o gyllidebau cyfyngedig. Mae gwaredu a throsglwyddo asedau dros ben yn helpu i wrthbwyso costau, ac mae’n rhaid i fuddsoddiad mewn asedau ddangos y bydd yn cyflawni arbedion refeniw er mwyn eu cymeradwyo.

- mae'r Cyngor yn cydnabod bod capasiti cyflenwi o fewn Gwasanaethau Landlordiaid yn peri risg. Yn ystod 2021-22, roedd swyddi gwag yn y gwasanaeth gyda rhai swyddi technegol yn anodd recriwtio iddyn nhw. Mae pwyslais cynyddol ar ddatgarboneiddio hefyd wedi effeithio ar allu yn y gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â materion capasiti, gan gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o swyddi prentisiaid graddedigion.

## Mae trefniadau adrodd perfformiad rheoli asedau wedi’u tanddatblygu ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor yn disgwyl i strwythurau pwyllgorau newydd ddarparu mwy o gyfleoedd i graffu

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuwyd y canlynol:

- mae'r cynllun gweithredu rheoli asedau blynyddol wedi’i ymgorffori yn y cynllun busnes Gwasanaethau Landlordiaid, sy'n cael ei adolygu'n chwarterol yn unol â threfniadau monitro perfformiad y Cyngor.
- cawsom wybod bod yr Uwch Dîm Arwain a'r cabinet anffurfiol yn cael diweddariadau rheolaidd ar asedau, ac roedd gan yr uwch swyddogion y buom yn siarad â nhw wybodaeth dda. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth gyfyngedig o gyfleoedd ar gyfer craffu ehangach o berfformiad rheoli asedau. Mae penderfyniadau ynglŷn ag asedau yn mynd trwy strwythur y pwyllgor, a phan fo'n briodol mae'r rhain yn cael eu llywio gan asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb. Ond ni wnaethom nodi unrhyw enghreifftiau o'r holl gamau gweithredu a chynnydd yn ymwneud ag asedau yn cael eu tynnu at ei gilydd mewn un adroddiad i ddarparu goruchwyliaeth strategol a sicrwydd i bwyllgorau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- rhennir data perfformiad â Llywodraeth Cymru, ond nid yw'r Cyngor yn gwneud ei waith meincnodi ei hun o’i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae’n ystyried yn rhagweithiol sut mae sefydliadau eraill yn ymateb i effaith y pandemig ar sut a ble mae pobl yn gweithio ac yn myfyrio ar yr hyn a allai weithio neu y gellid ei dreialu yn Sir Fynwy. Mae rhywfaint o waith meincnodi yn digwydd wrth arfarnu opsiynau o ran asedau dros ben i helpu i ddeall gwerth posibl ased.
- cyflwynodd y Cyngor strwythur pwyllgor newydd ym mis Mai 2022 ac mae'r cylchoedd gwaith diwygiedig yn rhoi cyfle i graffu'n fwy rheolaidd ar berfformiad rheoli asedau strategol. Wrth i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth newydd, dylai ystyried y mesurau perfformiad a'r amcanion y gallai adrodd arnynt yn rheolaidd i aelodau etholedig er mwyn dangos cynnydd. Dylai hefyd ystyried cyfleoedd i feincnodi ei berfformiad o’i gymharu â sefydliadau

tebyg eraill. Bydd hyn yn helpu i roi cyd-destun i'w berfformiad ei hun, yn darparu cyfleoedd i ddysgu, ac yn helpu i roi sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian mewn cysylltiad â rheoli asedau.

# Gweithlu

## Mae'r Cyngor eisoes yn gweithredu model gweithio ystwyth ac wedi datblygu sylfaen dystiolaeth gref i lywio ei Strategaeth Pobl newydd

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuwyd y canlynol:

- nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar unwaith i wneud newidiadau ffurfiol i'r ffordd y mae ei staff yn gweithio oherwydd ei brofiad o bandemig COVID-19. Fel y nodwyd uchod, roedd trefniadau gweithio ystwyth ar waith eisoes yn y Cyngor cyn y pandemig. Bydd staff nad ydynt ar y rheng flaen yn parhau i weithio mewn modd hybrid gyda'r ymreolaeth a'r hyblygrwydd i weithio o leoliad sy'n addas iddyn nhw.
- mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i ofyn am adborth staff drwy gydol y pandemig. Er bod diwylliant o weithio ystwyth eisoes ar waith, roedd gorfod gweithio gartref yn ystod y cyfnod clo yn anodd i lawer, ac roedd y Cyngor yn canolbwyntio'n fawr ar les staff. Sefydlodd linellau cyfathrebu lluosog gyda staff i'w helpu i deimlo cysylltiad ac ymgysylltiad, a'u gwneud yn ymwybodol o fentrau lles a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- roedd y trefniadau hyn hefyd yn helpu i roi dealltwriaeth ddefnyddiol o brofiadau staff o weithio o bell, ac yna gweithio hybrid, gan gynnwys sut yr oedd hyn yn wahanol ar draws meysydd gwasanaeth. Fel y nodwyd uchod, mae adborth staff yn cael ei ddefnyddio i ail-lunio mannau swyddfa a dywedodd swyddogion wrthym y bydd ymgysylltu parhaus â staff ar bob lefel yn llywio penderfyniadau'r dyfodol ynglŷn â'r gweithlu, gan gynnwys diweddariadau i'r polisi AD a chynllunio'r gweithlu.
- hyd yn hyn, mae'r Cyngor yn gweld bod mwy o staff yn dewis gweithio i ffwrdd o'r swyddfa na chyn pandemig COVID-19, er bod hyn yn wahanol ar draws meysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn bwriadu archwilio i hyn ymhellach er mwyn deall a yw'r gwahaniaethau'n ddiwylliannol neu a oes rheswm ymarferol sy'n gysylltiedig â rôl.
- mae Strategaeth Pobl y Cyngor yn rhedeg o 2018-20 22 ac felly, yn yr un modd â'r strategaeth asedau, mae amseriad ein hadolygiad yn golygu nad yw gweledigaeth hirdymor y Cyngor ar gyfer gweithlu yn cael ei mynegi mewn strategaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn bwriadu dechrau datblygu ei strategaeth newydd dros yr haf ac mae'r gwaith o lywio'r strategaeth eisoes ar y gweill. Er enghraifft, tua diwedd 2021, daeth y Cyngor ag ystod o setiau data mewnol ac allanol at ei gilydd yn Power BI,

gan ddarparu cyfres soffistigedig o ddata'r gweithlu i'r UDA er mwyn llywio strategaeth a gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion y gweithlu.

- mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn dechrau defnyddio'r data hyn yn dangos meddwl effeithiol ac integredig ynghylch materion digidol, gweithlu, asedau a datgarboneiddio. Er enghraifft, trwy fapio ble mae ei staff yn byw o'i gymharu â data eraill, mae'r Cyngor wedi nodi:
  - ble mae cyflymder band eang gwael yn rhwystr i weithio gartref;
  - yr allyriadau carbon a gynhyrchir gan staff sy'n teithio i swyddfeydd;
  - ble mae staff yn byw mewn cysylltiad ag adeiladau presennol Sir Fynwy, a lle mae pocedi o staff yn byw yn agos i adeiladau eraill yn y sector cyhoeddus (er enghraifft mewn siroedd cyfagos), gan ddarparu cyfleoedd i drafod trefniadau desg boeth gyda chynghorau eraill yn ogystal â sicrhau'r defnydd mwyaf o'i ystad ei hun.
- mae'r Gweithgor Pobl wedi bod wrthi'n ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg fel wythnos waith pedwar diwrnod, ymchwil ar weithlu'r dyfodol, a newidiadau y mae sefydliadau eraill yn eu gwneud mewn cysylltiad â gweithlu oherwydd y pandemig. O ganlyniad, dangosodd y swyddogion y buom yn siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o heriau ac ysgogwyr allweddol i newid mewn cysylltiad â'r gweithlu, gan gyfeirio'n benodol at ddatgarboneiddio, gwasanaethau digidol, gweithio o bell, gweithlu sy'n heneiddio, prinder sgiliau, ac effaith hirdymor COVID-19 sydd eto'n anhysbys. Felly, mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio ei strategaethau newydd.
- mae'r Strategaeth Pobl bresennol yn dangos ei haliniad â dogfennau allweddol eraill y Cyngor, gan gynnwys ei strategaethau digidol, asedau a masnachol. Mae hefyd yn nodi rhai enghreifftiau o sut mae'n ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond mae lle i gryfhau hyn ymhellach.
- dylai'r Strategaeth gael ei hategu gan gynllun gweithredu blynyddol ond mae'r pandemig wedi tarfu ar ddiweddariadau rheolaidd i'r cynllun. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i adfer y broses hon ar gyfer y strategaeth newydd.

## Mae'r Cyngor yn adolygu ei strwythur i reoli ei weithlu ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu ei drefniadau cynllunio gweithlu ymhellach a helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuwyd y canlynol:

- mae'r Cyngor yn gweithredu model partner busnes AD, gyda rheolwyr gwasanaeth yn gyfrifol am ystod o swyddogaethau AD megis rheoli absenoldeb a chynllunio gweithlu, gyda chefnogaeth eu partner busnes AD.
- mae canolfan Gwasanaethau Pobl yn galluogi rheolwyr i gael arweiniad a gwybodaeth am bynciau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu ac mae dangosfwrdd

AD yn darparu data'r gweithlu i reolwyr, megis absenoldeb salwch a phroffiliau oedran staff.

- roedd gan uwch swyddogion y buom yn siarad â nhw ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli gweithlu ac rydym wedi nodi meysydd i'w gwella. Cyflwynwyd rôl newydd penodol i gynllunio'r gweithlu ym mis Ebrill 2022, gyda'r nod o gryfhau strategaethau cynllunio a recriwtio'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio ar y we. Mae gwaith wedi'i gynllunio hefyd i adolygu a datblygu darpariaeth hyfforddiant y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dyblygu posib rhwng rôl y ganolfan gorfforaethol a rhai gwasanaethau mewn cysylltiad â recriwtio a hyfforddi, ac yn gwneud gwaith i ddeall y rhesymau dros hyn a sicrhau ei fod yn cyflawni'r cydbwysedd iawn, gan gydnabod bod hyn yn debygol o fod yn wahanol yn ôl maes gwasanaeth.
- mae prinder sgiliau yn risg a nodwyd. Mae nifer o'r swyddi y mae'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd recriwtio iddyn nhw yn ganlyniad i brinder cenedlaethol, e.e. swyddi technegol a swyddi gwasanaethau cymdeithasol. Mae prisiau eiddo uchel a natur wledig y sir yn gwaethygu heriau recriwtio ymhellach yn Sir Fynwy. Mae'r Cyngor wedi nodi'r swyddi risg uchel ac yn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â phrinder sgiliau gan gynnwys:
  - cadeirio gweithgor rhanbarthol sy'n edrych ar atebion i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau cymdeithasol;
  - mwy o ddefnydd o rolau prentis graddedigion a datblygu talent yn fewnol;
  - fframwaith ar gyfer prentisiaethau, interniaethau a chadetiaeth; a
  - recriwtio o'r tu allan i'r sector cyhoeddus.
- mae enghreifftiau hefyd o'r Cyngor yn cydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau, e.e. trefniadau caffael gyda Chyngor Caerdydd a darparu gwasanaethau ystad technegol i Heddlu Gwent. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn rhan o Wasanaeth Adnoddau a Rennir Gwent, gwasanaeth technoleg gwybodaeth cydweithredol rhwng pum partner sector cyhoeddus. Mae cyfle i'r Cyngor fyfyrio ar p'un a yw'n defnyddio dull digon systematig o nodi ble y gallai gwaith partneriaeth fod o fudd i'r Cyngor, er mwyn sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cydweithio.
- dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cadw rhai swyddi gwag heb eu llenwi fel rhan o fesurau brys i helpu i reoli gorwariant yn ystod y flwyddyn a phwysau costau. Mae tuedd i hyn effeithio ar swyddi yn y ganolfan gorfforaethol yn hytrach na gwasanaethau rheng flaen ac yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllideb ychwanegol i recriwtio mwy o staff i ymdrin ag ôl-groniadau a achosir gan y pandemig, e.e. ym maes Gwarchod y Cyhoedd. Wrth i chwyddiant cynyddol roi mwy o bwysau ar gyllidebau, bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y gall gydbwyso ei ofynion ar gyfer y gweithlu â'r angen i wneud arbedion. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr her hon ac yn adolygu ei gynlluniau ariannol tymor canolig.

## Mae data a thueddiadau'r gweithlu yn cael eu hadolygu'n fewnol ac mae uwch swyddogion yn hyddysg ynglŷn â materion yn ymwneud â'r gweithlu, ond mae'r pandemig wedi effeithio ar graffu ar y Strategaeth Pobl gan aelodau etholedig

16 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuwyd y canlynol:

- mae'r Strategaeth Pobl yn cynnwys ystod o fesurau ansoddol a meintiol i helpu i werthuso a mesur cynnydd. Mae data'r gweithlu hefyd ar gael i reolwyr drwy ddangosfwrdd a system MyView. Dywedodd swyddogion wrthym fod yr UDA a deiliaid portffolio yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y gweithlu, ac roedd gan uwch swyddogion y buom yn siarad â nhw wybodaeth dda am faterion gweithlu.
- ond, er bod aelodau yn cael cyfleoedd i graffu ar fesurau perfformiad y gweithlu yn adroddiad blynyddol y cynllun corfforaethol, mae’r pandemig wedi effeithio ar adroddiad blynyddol mwy penodol a manwl ar y Strategaeth Pobl a chynlluniau cefnogi gweithredu. Wrth ddatblygu ei Strategaeth Pobl newydd, dylai'r Cyngor ystyried ailosod adroddiadau cynnydd rheolaidd am y strategaeth, gan roi cyfle i aelodau dethol y pwyllgor graffu ar berfformiad.
- mae'r Cyngor yn defnyddio InfoBase i feincnodi ei ddata gweithlu o’u cymharu â data awdurdodau lleol eraill, er na welsom dystiolaeth o sut mae'r meincnodi hwn yn cael ei ddefnyddio. Caiff cyflogau eu meincnodi hefyd. Yn yr un modd ag asedau, mae'r Cyngor wedi bod wrthi'n ystyried sut mae sefydliadau eraill yn addasu eu gweithluoedd a ffyrdd o weithio yn sgil COVID-19, i ddysgu o'u profiadau a nodi beth allai weithio neu gael ei dreialu yn Sir Fynwy.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.